Anne Brontë 1820–1849

Nofelydd a bardd

Ganwyd Anne Brontë yn y persondy ar Market Street, Thornton, ger Bradford, Swydd Efrog, ar 17 Ionawr 1820. Hi oedd yr ieuengaf o chwech o blant y Parch. Patrick Brontë a'i wraig, Maria, ac yn fuan wedi ei geni symudodd y teulu i blwyf Haworth. Y flwyddyn ddilynol bu farw ei mam a daeth eu modryb, Elizabeth Branwell, i ofalu amdanynt. Oherwydd ei hiechyd bregus addysgwyd Anne gartref ac yn gynnar fe ddangosodd ddawn lenyddol. Creodd hi a'i chwaer Emily wlad ddychmygol Gondal, ac yn ddiweddarach cyfansoddodd lawer o gerddi yn disgrifio digwyddiadau a chymeriadau yno. Treuliodd beth amser ar ôl 1835 yn ysgol Margaret Wooler, Mirfield, lle roedd ei chwaer Charlotte yn athrawes, ond fe amharodd salwch ar ei haddysg yno.

Fe gafodd ei phenodi fel athrawes bersonol i blant Blake Hall, Mirfield, ym 1839 lle y dysgai blant hynaf Joshua Ingham sef Joshua Cunliffe a Mary. Roedd hwn yn brofiad anodd iddi gan fod y plant yn anystywallt ac wedi eu difetha yn llwyr, ac nid oedd ganddi fodd i'w disgyblu. Arhosodd yno tan ddiwedd y flwyddyn ac yna symudodd i fod yn athrawes i deulu'r Parch. Edmund Robinson yn Thorp Green Hall, Little Ouseburn, ger Efrog, lle y bu hyd 1845. Yma cafodd lawer o brofiadau a ddefnyddiodd yn ddiweddarach yn ei gweithiau. Profwyd ei ffydd yn y cyfnod hwn gan ddwy ergyd drom. Bu farw ei chyfaill William Weightman o golera, a'i modryb Elizabeth. Y mae ei cherdd 'I will not mourn thee, lovely one' yn mynegi ei galar o golli William. Etifeddodd ychydig arian yn ewyllys ei modryb ac fe'i defnyddiodd yn rhannol i brynu llyfrau ac offer celf. Parhaodd i astudio Lladin ac Almaeneg gyda'r bwriad o agor ysgol maes o law.

Ymunodd ei brawd Branwell â hi yn Thorp Green i fod yn diwtor ar Edmund Robinson, yr ieuengaf, ond datblygodd perthynas anaddas rhyngddo ef a Mrs Robinson ac fe'i diswyddwyd. Gadawodd Anne yn fuan wedyn. Dechreuodd ei brawd yfed yn drwm a chymryd cyffuriau, a gofidiai hi yn ddirfawr dros ei gyflwr moesol ac ysbrydol. Yn ei

rhagymadrodd i'r ail argraffiad o *The Tenant of Wildfell Hall* mae'n amddiffyn ei disgrifiad manwl o gymeriadau drwg fel modd i rybuddio ieuenctid am beryglon maglau a themtasiynau bywyd.

Ym 1846 cyhoeddwyd cyfrol o farddoniaeth gan y tair chwaer, sef *Poems* gan Currer (Charlotte), Ellis (Emily) ac Acton (Anne) Bell. Er na fu gwerthiant mawr i'r gyfrol cawsant adolygiadau ffafriol ac fe gyhoeddwyd cerdd Anne 'The three guides' a'i hemyn 'Believe not those who say the upward path is smooth' yn *Fraser's Magazine.* Yn dilyn llwyddiant mawr y nofel *Jane Eyre* gan Charlotte, argraffwyd nofelau gan y ddwy chwaer arall, sef *Agnes Grey* gan Anne a *Wuthering Heights* gan Emily. Cyhoeddwyd y tair nofel ym 1847.

Cyhuddwyd Anne o orbwysleisio sefyllfaoedd annymunol yn ei nofel ond amddiffynnodd ei hun trwy ddweud ei bod yn adlewyrchu bywyd go iawn. Yna fe gyhoeddwyd ail nofel Anne, sef *The Tenant of Wildfell Hall* sy'n adrodd hanes gwraig yn gadael ei gŵr godinebus er mwyn diogelu ei mab. Er i'r *Spectator* gondemnio'r chwiorydd am ysgrifennu nofelau amrwd a brwnt, gwerthodd y llyfr yn rhagorol. Roedd y llyfrau hyn yn rhan o frwydr menywod am ryddid a chydraddoldeb mewn byd oedd yn cael ei reoli gan ddynion. Gwelai Anne ei nofelau fel cymorth hefyd i Gristnogion fyw eu ffydd mewn byd anodd. Ysgrifennodd nifer o gerddi crefyddol ac emynau, yn cynnwys yr emyn 'My God! O let me call thee mine!' Dirywiodd ei hiechyd ac aeth ar daith i geisio gwellhad yn Scarborough, lle y bu farw ar 28 Mai 1849. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent eglwys St Mary, Castle Hill, Scarborough.